

NODIADAU PWYSIG

Darllenwch y rhain cyn llenwi eich Mandad Debyd Uniongyrchol

Mae'r ddogfen hon yn:

- Esbonio'r dulliau talu ar gyfer Ffioedd Llety
- Esbonio'r System Debyd Uniongyrchol
- Rhoi amrywiaeth o sicrwydd o ran taliad Debyd Uniongyrchol
- Rhoi manylion dyddiadau talu
- Rhoi manylion costau talu'n hwyr

DULLIAU TALU AR GYFER FFFIOEDD LLETY

Gellir talu'r holl ffioedd, yn ogystal â'r rhan fwyaf o'r costau cysylltiedig, fel trwydded barcio, naill ai trwy:

- **Cerdyn credyd/debyd yn llawn ymlaen llaw neu ar ôl cyrraedd**
- **Debyd Uniongyrchol o gyfrif banc yn y DU (sy'n daladwy mewn uchafswm o 3 rhandaliad ar ddyddiadau penodol, gan ddibynnu ar eich cyfnod preswyl)**

Os byddwch yn dymuno talu eich ffioedd llety **yn llawn gyda cherdyn credyd/debyd**, dylech ddewis yr opsiwn '**Taliad Llawn gyda Cherdyn Credyd/Debyd**' i dalu eich ffioedd llety a chostau cysylltiedig adeg derbyn.

Os hoffech dalu eich ffioedd llety trwy Ddebyd Uniongyrchol (yn daladwy mewn uchafswm o 3 rhandaliad ar ddyddiadau penodol, gan ddibynnu ar eich cyfnod preswyl) a bod gennych **gyfrif banc yn y DU**, dylech ddewis '**Rhandaliadau drwy Ddebyd Uniongyrchol**' wrth dderbyn eich Cynnig Llety ar-lein. Byddwch wedyn yn gallu rhoi eich manylion debyd uniongyrchol ar-lein. Os bydd eich ffioedd llety yn cael eu talu **o gyfrif banc rhywun arall**, dylech hefyd ddewis yr opsiwn hwn oherwydd bydd deiliad y cyfrif yn gallu cwblhau eu manylion debyd uniongyrchol ar-lein.

Os yw'n gyfrif ar y cyd lle mae angen y DDAU lofnod, peidiwch â chyflwyno manylion y cyfrif banc ar-lein. Dewiswch y botwm "Argraffu Debyd Uniongyrchol Gwag ~ Cyfrif ar y Cyd" i argraffu Ffurflen Gorchymyn Debyd Uniongyrchol. Dylech wedyn ei dychwelyd drwy'r post i'r cyfeiriad a nodir ar y ffurflen.

Os ydych chi'n **fyfyrwr tramor a heb gyfrif banc yn y DU eto**, dylech ddewis '**Rhandaliadau drwy Ddebyd Uniongyrchol**' ac yna'r botwm 'Heb gyfrif banc yn y DU' ar y sgrîn. Cewch ebost i gadarnhau fydd yn cynnwys dolen at Ffurflen Gorchymyn Debyd Uniongyrchol. Argraffwch y ffurflen hon a'i llenwi yn syth ar ôl agor eich cyfrif banc yn y DU. Anfonwch y ffurflen i Swyddfa Gyllid y Cyfleusterau Campws erbyn 1 Hydref 2018.

Yr unig eithriadau i'r dulliau talu hyn yw:

- **Myfyrwyr a Noddir**
 - Os bydd eich Ffioedd Llety yn cael eu talu'n uniongyrchol i ni gan eich noddwr, dewiswch '**Rhandaliadau sy'n cael eu talu gan noddwr**' fel eich dull talu ac anfonwch gopi o'ch llythyr affidafid yn cadarnhau eich statws nodedig i Swyddfa Gyllid Cyfleusterau Campws yn y cyfeiriad isod. Ar ôl i chi gyrraedd Caerdydd, byddwn yn anfon anfoneb at eich noddwr ar gyfer eich Ffioedd Llety.
 - Os byddwch yn cael cyflog misol gan noddwr a bod angen i chi dalu drwy gynllun talu misol, dewiswch '**Cynllun Talu – myfyrwr yn talu trwy Fwrsariaeth gan y GIG neu gyflog misol**' fel eich dull talu ac anfonwch gadarnhad o'ch nawdd i Swyddfa Gyllid Cyfleusterau Campws yn y cyfeiriad isod. Bydd Swyddfa Gyllid Cyfleusterau Campws yn cadarnhau derbyn eich cynllun talu ar ôl derbyn tystiolaeth o'ch cyflog misol ac yn fuan ar ôl i chi gyrraedd.
- **Bwrsariaeth y GIG**
 - Os byddwch yn derbyn tâl misol o Fwrsariaeth y GIG, gallwch ddewis talu eich ffioedd llety mewn rhandaliadau misol cyfartal trwy gynllun talu misol. Dewiswch '**Cynllun Talu - derbyn Bwrsariaeth y GIG neu gyflog misol**' fel dull talu ac anfonwch gadarnhad o'ch bwrsariaeth i Swyddfa Gyllid

Cyfleusterau Campws yn y cyfeiriad isod. Bydd Swyddfa Gyllid Cyfleusterau Campws yn cadarnhau derbyn eich cynllun talu ar ôl derbyn tystiolaeth o'ch cyflog misol ac yn fuan ar ôl i chi gyrraedd. Os byddwch yn cael Benthyciad Myfyriwr bob tymor yn ogystal â thaliad misol o Fwrsariaeth y GIG, hwyrach yr hoffech dalu mewn 3 rhandaliad drwy Ddebyd Uniongyrchol. Dewiswch **'Rhandaliadau drwy Ddebyd Uniongyrchol'** fel eich dull talu.

- Os nad yw unrhyw un o'r dewisiadau hyn yn gweddu i'ch amgylchiadau, cysylltwch â Swyddfa Gyllid Cyfleusterau Campws a fydd yn gallu trafod ffyrdd eraill o dalu gyda chi.

Y SYSTEM DEBYD UNIONGYRCHOL

Debyd Uniongyrchol yw'r dull o dalu eich ffioedd llety a chostau cysylltiedig yn uniongyrchol o'ch cyfrif banc. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych ddigon o arian yn eich cyfrif banc o leiaf 48 awr cyn y dyddiad talu.

Rhaid i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu fod yn y Deyrnas Unedig (DU). Bydd angen i chi agor **Cyfrif Cyfredol** oherwydd ni ellir gwneud Debydau Uniongyrchol o unrhyw fath arall o gyfrif.

SICRWYDD DEBYD UNIONGYRCHOL

Rhoddir y sicrwydd canlynol i chi (neu eich talwr cyfrif enwebedig) gan y Brifysgol mewn perthynas â Mandadau Debyd Uniongyrchol:

- Bydd Debydau Uniongyrchol yn cael eu cyflwyno o fewn telerau'r cyfarwyddyd yr ydych wedi'i awdurdodi yn unig a chewch eich amddiffyn gan indemniad a roddir gan y Brifysgol i Fanciau a Chymdeithasau Adeiladu.
- Bydd eich Banc neu Gymdeithas Adeiladu yn eich ad-dalu os bydd Debyd Uniongyrchol ar eich cyfrif nad yw'n cydymffurfio â'ch Mandad Debyd Uniongyrchol.
- Mae gennych hawl bob amser i ganslo eich Mandad Debyd Uniongyrchol trwy ysgrifennu at eich Banc neu Gymdeithas Adeiladu; fodd bynnag, rhaid hysbysu Swyddfa Gyllid Cyfleusterau Campws hefyd.
- Os byddwch yn newid eich cyfrif Banc neu Gymdeithas Adeiladu ac yn canslo eich Mandad Debyd Uniongyrchol, rhaid i chi hysbysu Swyddfa Gyllid Cyfleusterau Campws a llenwi Mandad Debyd Uniongyrchol arall.
- Mae eich mandad yn caniatáu talu symiau amhenodol i'r Brifysgol. Bydd yr Hysbysiad Talu yn eich hysbysu ynghylch y symiau a dyddiadau talu'r taliadau.
- Ar y dyddiadau talu penodol, byddwn yn gofyn am y swm/symiau sy'n ddyledus ar gyfer y rhandaliad hwnnw. Ni fyddwn yn gofyn am unrhyw symiau sy'n uwch na'r rhandaliad, nac yn gofyn am fwy o daliadau na'r 3 taliad ar ddyddiadau talu'r rhandaliadau, fesul sesiwn academiaidd, heb roi rhybudd ymlaen llaw i chi neu'r talwr cyfrif enwebedig.
- Mae eich Mandad Debyd Uniongyrchol yn ddilys ar gyfer y cyfnod preswyl presennol yn unig, a byddem yn argymhell eich bod chi'n cadarnhau'n bersonol gyda'ch Banc neu Gymdeithas Adeiladu bod y mandad wedi cael ei ganslo, ar ddiwedd y cyfnod preswyl.

TALU AM LETY A DYDDIADAU TALU

Cyfnodau Preswyl Safonol	Dyddiadau Talu	Y Cyfnod Preswyl Gwirioneddol y mae'r taliad yn ei gynnwys
19 Medi 2018 – 17 Mehefin 2019	24 Hydref 2018 23 Ionawr 2019 8 Mai 2019	19 Medi 2018 - 19 Rhagfyr 2018 19 Rhagfyr 2018 – 19 Mawrth 2019 19 Mawrth 2019 – 17 Mehefin 2019
Cyfnod Preswyl Canolraddol	Dyddiadau Talu	Y Cyfnod Preswyl Gwirioneddol y mae'r taliad yn ei gynnwys
19 Medi 2018 – 28 Mehefin 2019 (Llys Tal-y-bont a Phorth Tal-y-bont)	24 Hydref 2018 23 Ionawr 2019 8 Mai 2019	19 Medi 2018 - 22 Rhagfyr 2018 22 Rhagfyr 2018 – 26 Mawrth 2019 26 Mawrth 2019 – 28 Mehefin 2019
Cyfnod Preswyl Blwyddyn Lawn	Dyddiadau Talu	Y Cyfnod Preswyl Gwirioneddol y mae'r taliad yn ei gynnwys
19 Medi 2018 – 13 Medi 2019	24 Hydref 2018 23 Ionawr 2019 8 Mai 2019	19 Medi 2018 – 17 Ionawr 2019 17 Ionawr 2019 – 17 Mai 2019 17 Mai 2019 – 13 Medi 2019

Mae'r 'Cyfnod Preswyl Gwirioneddol y mae'r Taliad yn ei Gynnwys' yn ganllaw bras - caiff y rhandaliadau ar gyfer Cyfnod Preswyl eu rhannu'n gyfartal ac nid ydynt bob amser yn rhannu'n ddiwrnodau cyfan.

Mae'r dyddiadau uchod wedi cael eu cynllunio i ystyried derbyn a bancio Benthyciadau Myfyrwyr.

Bydd **Hysbysiad Talu** yn cael ei anfon atoch mewn neges ebost pythefnos cyn y dyddiad talu, yn eich cyngori ynghylch y symiau sy'n ddyledus ar gyfer y ffioedd llety a chostau cysylltiedig, ac erbyn pa ddyddiad sydd rhaid gwneud pob taliad. Bydd yr Hysbysiad Talu yn cadarnhau manylion y cyfrif y bydd y taliadau'n cael eu tynnu ohono ar gyfer eich ffioedd llety a chostau cysylltiedig. Bydd yn cael ei anfon mewn neges ebost i'ch cyfeiriad ebost Prifysgol Caerdydd ac unrhyw gyfeiriad ebost arall sydd gennym ar eich cyfer. **Mae'n bwysig eich bod chi'n cadw llygad ar eich cyfrifon ebost yn rheolaidd.** Sylwer, efallai y bydd rhai darparwyr ebost yn trin yr ebost fel sbam, felly eich cyfrifoldeb chi yw edrych yn eich ffolder sbam/sothach yn ogystal â'ch mewnlwch, gan mai mewn neges ebost yn unig y caiff yr Hysbysiad Talu ei anfon.

Os oes unigolyn neu sefydliad (talwr cyfrif enwebedig) wedi cytuno i fod yn gyfrifol am dalu eich ffioedd llety a chostau cysylltiedig trwy Ddebyd Uniongyrchol, bydd Hysbysiad Talu yn cael ei anfon yn uniongyrchol ato/ati mewn neges ebost. Os nad oes gennym gyfeiriad ebost at eu cyfer, bydd yn cael ei bostio. Bydd Hysbysiad Talu yn cael ei anfon mewn neges ebost atoch chi hefyd, er gwybodaeth yn unig.

Cytundebau Llety sy'n cychwyn ar ddechrau'r Cyfnod Preswyl Safonol, Canolradd neu Flwyddyn Lawn:
Ar gyfer myfyrwyr y neilltuir llety ar eu cyfer ar ddechrau'r Cyfnod Preswyl Safonol, Canolradd neu Flwyddyn Lawn, caiff y ffioedd blynyddol ar gyfer y llety a chostau cysylltiedig eu casglu mewn rhandaliadau cyfartal ar y dyddiadau a nodir uchod ar gyfer sesiwn 2018/2019.

Cytundebau Llety sy'n cychwyn ar ddechrau'r Cyfnod Preswyl Ansafonol:
Ar gyfer myfyrwyr y neilltuir llety ar eu cyfer ar ddechrau'r Cyfnod Preswyl Ansafonol, caiff y ffioedd blynyddol ar gyfer y llety a chostau cysylltiedig eu casglu mewn rhandaliadau cyfartal ar y dyddiadau a nodir yn eich Ffurflen Derbyn Llety.

Cytundebau Llety sy'n cychwyn ar ôl dechrau'r Cyfnod Preswyl Ansafonol, Safonol, Canolradd neu Flwyddyn Lawn:
Ar gyfer myfyrwyr y neilltuir llety ar eu cyfer ar ôl dechrau'r Cyfnod Preswyl Ansafonol, Safonol, Canolradd neu Flwyddyn Lawn, caiff y ffioedd blynyddol ar gyfer y llety a chostau cysylltiedig eu rhannu'n gyfatebol a'u cyfrifo'n ddyddiol. Sylwer, efallai y bydd angen i chi wneud taliad cychwynnol pan fyddwch yn cyrraedd, a bydd gweddill y ffi'n cael ei rannu'n rhandaliadau cyfartal, a fydd yn daladwy trwy Ddebyd Uniongyrchol. Yn achos myfyrwyr y neilltuir llety ar eu cyfer ar ôl y dyddiad olaf i ddechrau Debyd Uniongyrchol, h.y. 29 Mawrth 2019 ar gyfer y dyddiad talu ym mis Ebrill a nodir uchod, bydd angen talu eu ffioedd ar gyfer y llety yn llawn drwy gerdyn credyd/debyd.

Cytundebau Llety sy'n cael eu diwygio yn ystod unrhyw gyfnod preswyl:
Bydd taliadau myfyrwyr sy'n newid eu Cytundeb Llety yn ystod y cyfnod preswyl, er enghraifft, symud i ystafell wahanol, yn cael eu haddasu yn unol â hynny. Bydd angen i fyfyrwyr sy'n symud i ystafell ratach neu ddrutach ar ôl i Hysbysiad Talu gael ei gyflwyno ar gyfer y rhandaliad cyntaf neu'r ail rhandaliad, dalu'r swm a nodir ar yr Hysbysiad Talu gwreiddiol. Bydd unrhyw wahaniaeth mewn ffioedd llety oherwydd symud ystafell yn cael ei rannu ar draws rhandaliadau yn y dyfodol a bydd y taliadau wedi'u haddasu yn cael eu dangos ar yr Hysbysiad Talu ar gyfer y rhandaliad nesaf sy'n ddyledus. Sylwer, os byddwch yn ymestyn eich cyfnod preswyl, efallai y bydd gofyn i chi dalu swm ychwanegol pan fyddwch yn symud.

FFI TALU'N HWYR

Er mwyn cadw ffioedd llety a chostau cysylltiedig mor isel â phosibl, mae gofyn i fyfyrwyr dalu ffioedd o'r fath yn brydlon. Bydd talu'n hwyr yn golygu y byddwch yn colli eich hawl i dalu'r ffioedd ar y gyfradd is a ddyfynnwyd yn y wybodaeth ffioedd (a oedd wedi'i chynnwys yn eich *Cynnig Llety*) ac yn gorfod talu tâl cychwynnol o 5% o'r swm sy'n ddyledus. Os bydd y taliad yn parhau'n ddyledus ar ôl 15 diwrnod, byddwch yn gorfod talu tâl ychwanegol o 5% o'r swm sy'n ddyledus. Codir y tâl ar unrhyw ffi llety a chost gysylltiedig sy'n berthnasol i'r rhandaliad hwyr.

Anfonir Hysbysiad Talu'n Hwyr/Anfoneb mewn neges ebost ar gyfer unrhyw ffi sy'n ddyledus, ac sy'n parhau heb ei dalu ar ôl y dyddiadau talu, a byddwch yn cael eich rhestru a'ch erlid fel dyledwr hyd nes ein bod ni wedi derbyn taliad.

Bydd dyledwyr i'r Brifysgol sydd â ffioedd llety a chostau cysylltiedig heb eu talu yn destun camau pellach (a allai gynnwys camau cyfreithiol) i adennill y symiau dyledus a/neu feddiant o'r Eiddo. Bydd unrhyw gostau (gan gynnwys costau cyfreithiol) y mae'n rhaid i'r Brifysgol eu talu hefyd yn cael eu ceisio gan y dyledwr.

YMHOLIADAU CYLLID

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y gweithdrefnau a nodir yn y nodiadau hyn, cysylltwch â/ac/neu os ydych yn cael unrhyw anawsterau ariannol, cysylltwch â:

Cyfleusterau Campws – Swyddfa Gyllid
Blwch Post 533, Caerdydd
Y Deyrnas Unedig, CF14 3XZ

Ffôn: +44 (0)29 2087 6367, 4662, 5239 neu 4985
Ffacs: +44 (0)29 2087 4661
Ebst: residencesfinance@caerdydd.ac.uk

Defnyddiwch y côd post canlynol i gael cyfarwyddiadau i Dŷ Southgate: CF14 3UX

Os ydych chi'n cael anawsterau ariannol, gallwch hefyd siarad â'r Tîm Cyngor ac Arian i gael cefnogaeth ac arweiniad ynglŷn â'ch arian. Gallwch gysylltu â'r Tîm Cyngor ac Arian drwy ffonio (0)29 2087 4844 neu ebostio adviceandmoney@caerdydd.ac.uk. Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar dudalennau gwe'r Tîm Cyngor ac Arian.

I gael cyngor annibynnol, gallwch gysylltu â'r gwasanaeth Cyngor i Fyfyrrwyr yn Undeb y Myfyrrwyr sy'n cynnig cyngor diduedd a chyfrinachol yn rhad ac am ddim yn ogystal â chefnogaeth a chynrychiolaeth ynghylch rheoliadau'r Brifysgol. Gallwch gysylltu â'r gwasanaeth Cyngor i Fyfyrrwyr drwy ffonio (0)29 2078 1410 neu ebostio advice@caerdydd.ac.uk. Mae gwybodaeth ar gael hefyd yn: <https://www.cardiffstudents.com/advice/>

BANCAU LLEOL

Mae gan y banciau canlynol Gyngorydd Myfyrrwyr a fydd yn hapus i'ch helpu:

<i>Banc Barclays ccc</i> 2DP	1-5 Ffordd Dewi Sant, 28 Working Street, Caerdydd, Cymru, DU, CF10 Ffôn: +44 (0)3457 345 345 www.barclays.co.uk
<i>Banc HSBC ccc</i>	56 Heol y Frenhines, Caerdydd, Cymru, DU, CF10 2PX Ffôn: +44 (0)3456 040 626 www.hsbc.co.uk
<i>Banc Natwest ccc</i>	96 Heol y Frenhines, Caerdydd, Cymru, DU, CF10 2GR Ffôn: +44 (0)345 302 0774 www.natwest.com
<i>Banc Lloyds ccc</i>	1-4 Canolfan The Globe, Caerdydd, Cymru, DU, CF24 3PJ Ffôn: +44 (0)345 300 0000 www.lloydsbank.com
<i>Santander ccc</i>	Cangen y Brifysgol, Llawr Gwaelod, Undeb y Myfyrrwyr, Prifysgol Caerdydd, Plas y Parc, Caerdydd, Cymru, DU, CF10 3QN Ffôn: +44 (0)800 085 1644 www.santander.co.uk

MYFYRWYR TRAMOR

Os nad oes gennych gyfrif banc y DU ar hyn o bryd, gallwch agor un ar ôl cyrraedd Caerdydd. Byddem yn eich cynghori i wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl cyrraedd, oherwydd gall y broses gymryd pythefnos o leiaf weithiau. Bydd rhai banciau yn eich galluogi i wneud cais am gyfrif ar-lein ac efallai y gallwch wneud hyn cyn cyrraedd y DU.

AGOR CYFRIF BANC

Er mwyn sefydlu debyd uniongyrchol i dalu eich ffioedd llety, bydd angen i chi agor Cyfrif **Cyfredol**. Bydd angen i chi wneud yn siŵr bod y cyfrif y byddwch yn ei agor yn derbyn taliadau trwy Ddebyd Uniongyrchol. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cadw eu harian mewn cyfrif cyfredol. Maent yn ddelfrydol i'w defnyddio o ddydd i ddydd ar gyfer symiau bach o arian i brynu pethau fel bwyd a dillad.

Mae'r wybodaeth sydd ei hangen i agor cyfrif banc yn amrywio rhwng banciau. Fodd bynnag, bydd angen ichi ddarparu'r dogfennau canlynol fel arfer:

- Eich pasbort
- Llythyr banc gan Brifysgol Caerdydd

Sut alla' i gael llythyr banc?

Ar ôl i chi **ymrestru ar-lein**, byddwch yn gallu cael gafael ar lythyr banc a'i argraffu drwy eich Porth Myfyrwyr SIMS.